Canolfan Arbenigedd Ranbarthol mewn ADCDF yng Nghymru:

Papur Briffio CAR Cymru 1

Beth yw CAR?

Ar hyn o bryd, mae 62 Canolfan Arbenigedd Ranbarthol (CAR) ledled y byd (4 yn y DU), a gydnabyddir gan Brifysgol y Cenhedloedd Unedig (PCU) fel rhan o weithgarwch y CU i hyrwyddo a datblygu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) yn Negawd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy y CU[1] (DADC, 2005-2014). Gallwch chi ddarganfod mwy am CARau ar http://www.ias.unu.edu/sub_page.aspx?catID=108&ddlID=183

Beth sy'n digwydd yng Nghymru?

O'r dechrau, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, UNESCO Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â sawl un o'ch plith, wedi bod yn weithredol ac yn awyddus i weithio gyda phartneriaid i sefydlu CAR effeithiol yng Nghymru.

Hyd yma, nid oes unrhyw CARau yng Nghymru, er y lefel uchel o weithgarwch ac arbenigedd sydd gennym yn y maes, a chydnabyddiaeth ffurfiol o bwysigrwydd hanfodol y gwaith hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau cenedlaethol a lleol eraill. Yn erbyn y cefndir hwn, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori yng Nghymru yn 2008, i geisio barn a syniadau'r rheini sy'n weithredol ym maes ADCDF, er mwyn mesur lefel y diddordeb mewn sefydlu CAR yng Nghymru, a syniadau ar ei chyfer. Roedd yr ymateb yn bendant: 'Gadewch i ni ei wneud!'

Gan gydnabod a) bod Cymru'n gallu ymfalchïo mewn ystod o weithgarwch ADCDF cydgysylltiedig parhaus (a llawer o weithgarwch nad yw'n gydgysylltiedig); b) ein bod yn byw mewn gwlad fach ('Rhanbarth' CAR); c) nad oes unrhyw gronfeydd y CU neu gronfeydd eraill yn cysylltu'n uniongyrchol â chydnabyddiaeth neu weithgarwch CAR, ac ch) ledled y byd, fod y frawdoliaeth CAR yn cael ei meithrin, ei harwain, ei gyrru, ei bywiogi neu'i chefnogi fel arall mewn sawl ffordd, gan Brifysgolion a sefydliadau Addysg Uwch ac Ymchwil eraill, mae'r adborth brwdfrydig a gafwyd drwy'r ymgynghoriadau wedi arwain at gynnwys yr egwyddorion canlynol yng nghynllun ein CAR Cymru arfaethedig (sydd wedi gwneud cais):

a) Dim dyblygu ymdrech gyda gweithgarwch presennol – mae'n rhaid i'r CAR gael ei chynllunio i gyfannu a chyfoethogi gweithgarwch ADCDF presennol
b) Un Gymru : Un CAR – Mae Cymru'n ddigon bach i fwynhau moethusrwydd meddu ar un CAR yn unig drwy'r wlad
c) Bydd y cais am CAR, a'r gwaith o'i sefydlu, yn gofyn dargyfeirio adnoddau presennol
ch) Yn gyffredin â CARau eraill, gellid ystyried mai Sefydliadau Addysg Uwch yw'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i hwyluso'r gwaith o sefydlu CAR a darparu cymorth gweithredol parhaus ar gyfer gweithgarwch CAR.

Pa gynnydd a wnaed hyd yma?

Yn unol â'r egwyddorion hyn, ymatebodd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, i wahoddiad agored gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i arwain y gwaith o baratoi dogfennaeth gais CAR Cymru. Gyda chymorth gan y Cynulliad a CCAUC, mae Grŵp Llywio Interim wedi'i gynnull i arwain a chynorthwyo Abertawe a Chasnewydd wrth baratoi'r cais. Mae aelodau'r Grŵp Llywio Interim[2], yn bwysig, yn cynnig ystod o

[1] Yng Nghymru, rydym ni'n defnyddio'r acronym 'ADCDF' (Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang) yn lle'r 'ADC' mwy cyffredin.
[2] Addysg Bellach (Coleg Garddwriaeth Cymru), Addysg Uwch (CCAUC, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru, Casnewydd), (AU ADCDF ac Ystadau), Awdurdodau Lleol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Cyrff Anllywodraethol (Y Ganolfan Technoleg Amgen, Cynnal Cymru,

safbwyntiau a phrofiad i'r trafodaethau paratoadol, gan sicrhau bod CAR Cymru wedi'i chyflunio i fod mor berthnasol ac addas i'r diben â phosibl. Unwaith y bydd y CAR wedi'i sefydlu, bydd cyfansoddiad y Grŵp Llywio Interim yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod ei berthnasedd a'i effeithiolrwydd yn cael eu cynnal.

Mae'r Grŵp Llywio Interim wedi cwrdd ddwywaith, er mwyn rhoi sylwadau manwl a chyfeiriad mewn perthynas â'r ddogfennaeth gais sy'n cael ei pharatoi. Mae'r dogfennau cais drafft ar wahanol gamau o gael eu cwblhau, a daw eu cynnwys o ymgynghoriadau ADCDF, CAR ac ymgynghoriadau perthnasol eraill, yn unol â chanllawiau PCU. Mae'r drafftiau yn cael eu caboli gan y Grŵp Llywio Interim, gyda chyngor penodol gan randdeiliaid CAR sefydledig ac unrhyw rai eraill sydd eu hangen (er enghraifft, wrth ddrafftio cytundebau partneriaeth). Mae'r testunau cais terfynol yn cael eu cynhyrchu gan Brifysgol Abertawe, gyda chymorth gan Brifysgol Cymru, Casnewydd.

Ond beth fydd yn ei *wneud*; sut bydd yn edrych?

O amgylch y byd, mae Sefydliadau Addysg Uwch ac Ymchwil yn arwain ac yn hwyluso CARau. O amgylch y byd, ac yng Nghymru, nid yw hyn yn trosi'n syml yn ADCDF *ynglŷn â* SAUau, *gan* SAUau ac *ar gyfer* SAUau. Bydd ein CAR yn gwbl gynhwysol, ac mae ein rhanddeiliaid yn cynnwys addysgwyr, ymchwilwyr, grwpiau cymunedol, swyddogion llywodraeth leol, gwirfoddolwyr, busnesau a'r cyfryngau; yn wir, pawb sy'n poeni am adeiladu dyfodol cynaliadwy i Gymru drwy addysg.

Wrth geisio osgoi dyblygu, adnabuwyd bwlch hanfodol yn y digwyddiadau ymgynghori: sef, ymchwil a datblygu ADCDF ei hun. Penderfynwyd felly mai nodwedd a ffocws unigryw'r CAR fydd ei swyddogaeth ymchwil a datblygu. Felly, gall y CAR gynorthwyo'r ystod o randdeiliaid. Ei rôl fydd herio pob un ohonom ni, ym mha sector bynnag rydym ni'n gweithredu, a chyda pha ffocws bynnag, i 'godi'r safon' o ran ansawdd ac effaith ein darpariaeth ADCDF. Mae'n rhaid iddi ein herio ni i weithio ymatebion i gwestiynau fel, 'Sut gallwn ni wella ein harferion ADCDF?', 'Beth sy'n gwneud ADCDF *o ansawdd* yn ein maes gwaith?', 'Sut byddwn ni'n mesur gwelliant neu effaith?' Yn fwy penodol, bydd y CAR yn ein herio ni i gyd i integreiddio dysgu myfyriol a chynnwys elfen o ymchwil ADCDF yn ein prosiectau, a sicrhau bod y cymundod CAR yn dysgu o'n hymdrechion.

Bydd Sefydliadau Addysg Uwch yn chwarae rôl allweddol wrth gyflawni nodau o'r fath, gan gyflwyno eu gwybodaeth ymchwil i waith mewn partneriaethau prosiect gyda rhanddeiliaid, er mwyn cefnogi'r gwaith o wella ansawdd darpariaeth ADCDF yng Nghymru, gan ddarparu cymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol i rai sy'n rhannu'r nod hwnnw.

Bydd Ysgrifenyddiaeth yn cael ei sefydlu i gydgysylltu a gweinyddu'r CAR.

Beth nesaf?

Byddwn yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd sylweddol yn ystod y cyfnod ymgeisio, ac wrth gwrs byddwn yn cyfleu canlyniad y cais (disgwylir yn hydref 2009).

Dros yr ychydig ddiwrnodau nesaf, byddwn yn dosbarthu ail Bapur Briffio CAR, er mwyn sicrhau bod gennych chi'r wybodaeth ddiweddaraf am y weledigaeth, yr amcanion, a'r

---

Cadwch Gymru'n Daclus, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar), UNESCO (UNESCO Cymru), LlCC (Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yr Uned Strategaeth, ADCDF).

cysyniadau fframwaith eraill sydd bellach yn eu lle, a fydd yn arwain ein gwaith pan fydd CAR Cymru yn ennill cydnabyddiaeth gan PCU.

Os nad ydych chi wedi derbyn y Papur Briffio hwn gennym ni'n uniongyrchol, a'ch bod yn dymuno cael eich cynnwys ar y rhestr gylchredeg, cysylltwch â ni ar rcewales@swansea.ac.uk, a rhowch eich manylion cyswllt i ni. Wrth gwrs, mae croeso i chi hefyd gyfleu unrhyw gwestiynau neu sylwadau a allai fod gennych chi, ar unrhyw adeg. Diolch. Edrychwn ymlaen at glywed gennych a gweithio gyda chi.